# Intern INSPIRE Llambed – Campws Gwyrddach
# Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| **Math o gytundeb:** | Bwrsariaeth (am flwyddyn) o £1,000 |
| **Oriau gwaith:** | 10 -15 awr y mis |
| **Lleoliad:** | Llambed |
| **Byddwch yn atebol i'r:** | Staff perthnasol yn INSPIRE |
| **Cymorth Strategol:** | Profost Llambed; a'r Tîm Cynaliadwyedd yn PCyDDS |

**Prosiect: Campws Gwyrddach**
Mae maniffesto Llywydd Campws Llambed yn canolbwyntio ar gynyddu cynaladwyedd a mannau gwyrddach ar draws y campws (gan gynnwys creu waliau byw); diben y rôl hon yw cefnogi datblygiad campws gwyrddach fyth.

Er mwyn cyflawni'r rôl hon bydd yr intern yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Natur Leol sy'n dod â sefydliadau, busnesau a phobl leol sydd am wella eu hamgylchedd naturiol ynghyd. Bydd y rôl yn helpu i greu gweithgareddau fel: teithiau cerdded er llesiant, garddio, rhandiroedd/gerddi cymunedol gyda ffocws ar dwf tymhorol yn ystod y tymor.

Er mwyn gwella ymgysylltiad a hyrwyddo ymhellach bydd y swydd yn cefnogi datblygiad ap/tudalennau gwe rhyngweithiol i ddathlu'r hyn sydd wedi'i wneud, ynghyd â galwad i weithredu â'r nod o barhau i wella ardaloedd gwyrddach ar gampws Llambed. Bydd y swydd yn dathlu'r ardaloedd ail-wylltio ac yn cynnal archwiliadau o blanhigion ac anifeiliaid.

Bydd y rôl hon hefyd yn cefnogi tîm Cynaladwyedd y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr, ac INSPIRE i greu achos busnes a dod o hyd i nawdd lleol ar gyfer wal fyw ar gampws Llambed. Yn ogystal, bydd y rôl yn ymgyrchu i annog myfyrwyr sy'n gwirfoddoli i ofalu am y wal werdd arfaethedig a chreu cynllun gwella sy'n rhoi sylw i amrywiaeth y plannu.

Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i fonitro cynnydd gyda'r aelod o dîm INSPIRE, y tîm Cynaladwyedd a'r Profost. Disgwylir i'r Intern weithio'n annibynnol hefyd a chwblhau adroddiadau misol at sylw eu rheolwr llinell.

**Buddion**

- Taliad misol rheolaidd am gyfnod yr interniaeth yn seiliedig ar berfformiad;
- Profiad o weithio gyda thîm ar brosiect mewn amgylchedd proffesiynol;
- Cael mewnwelediad i gynllunio strategol o fewn sefydliad mawr;
- Datblygu sgiliau arweinyddiaeth a chyfathrebu rhyngbersonol;
- Datblygu sgiliau rheoli amser a rheoli prosiectau;
- Datblygu cysylltiadau â nifer o fudiadau gwirfoddol yn yr ardal;
- Meithrin y gallu i gynllunio gweithgareddau a'u cynnal yn effeithiol
- Dysgu sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn helpu'ch CV i ddisgleirio mewn marchnad swyddi gystadleuol.

**Manyleb y Person**

Defnyddir yr isod wrth lunio'r rhestr fer. Dylai'r datganiad personol gynnwys yr holl feini prawf hanfodol a restrir isod.

| **Meini prawf** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Sgiliau cyfathrebu ardderchog | X | |
| Profiad o drefnu digwyddiadau cymunedol | X | |
| Angerdd dros greu a chynnal mannau gwyrdd | X | |
| Profiad o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo digwyddiad neu ymgyrch | | X |
| Profiad o weithio mewn tîm i gyflawni amcanion sy'n newid ymddygiad pobl | X | |
| Ymrwymiad i gynaladwyedd | X | |
| Medru'r Gymraeg | | X |